Home Office

# Trwyddedu ar gyfer Gwerthu Cyllyll

## Ymgynghoriad y Llywodraeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar Ddydd Mawrth 16 Rhagfyr 2025

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar Ddydd Mawrth 24 Chwefror 2026

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Pwnc** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ein cynigion i gyflwyno system drwyddedu ar gyfer gwerthwyr a mewnforwyr cyllyll ac eitemau llafnog. Bydd y wybodaeth a gesglir o'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio cyngor polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth a phenderfyniadau yn y dyfodol gan yr Ysgrifennydd Cartref a Gweinidogion. |
| **Ar gyfer** | Mae hwn yn ymgynghoriad sydd ar agor i'r cyhoedd ac wedi'i dargedu at bartïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, grwpiau cymunedol, busnesau, a sefydliadau sydd â diddordeb uniongyrchol yn y cynigion. |
| **Hyd** | 10 wythnos o 16 Rhagfyr 2025 i 24 Chwefror 2026. |
| **Ymholiadau** | E-bost: KnifeLicensingConsultation@homeoffice.gov.uk |
| **Sut i ymateb** | Cyflwynwch erbyn **24/02/2026** drwy:<br>• Cwblhau'r ffurflen ar-lein yma neu ddefnyddio'r ddolen: Trwyddedu ar gyfer gwerthu cyllyll - GOV.UK<br>• E-bost at: KnifeLicensingConsultation@homeoffice.gov.uk |
| **Cwmpas daearyddol** | Rydym yn ceisio barn o bob cwr o'r DU.<br><br>Lle mae cynigion yn ymdrin â materion datganoledig a bod angen deddfwriaeth, bydd hyn yn cael ei gytuno gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn unol â'r setliadau datganoli. |
| **Ffyrdd ychwanegol o ymateb** | Os na allwch ddefnyddio'r system ar-lein, er enghraifft oherwydd eich bod yn defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn PDF o'r ffurflen ar-lein a'i hanfon drwy e-bost at y manylion cyswllt uchod.<br><br>Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod hefyd os oes angen gwybodaeth arnoch mewn fformat arall, megis "hawdd ei ddarllen", print bras, Braille neu sain.<br><br>Efallai na fyddwn yn gallu dadansoddi ymatebion nad ydynt wedi'u cyflwyno yn y fformatau a ddarperir. |
| **Asesiad Opsiynau** | Mae'r Asesiad Opsiynau Ymgynghori wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn. Mae'r Asesiad Opsiynau Ymgynghori yn manylu ar y polisi gyda dadansoddiad. |

## Tudalen Cynnwys


Ynglŷn â ........ 4

1. Crynodeb Gweithredol ........ 5

2. Cefndir ........ 7

3. Cynigion ........ 9

   Trwyddedu ar gyfer Gwerthwyr Cyllyll ........ 9

   Trwyddedu ar gyfer Mewnforwyr Cyllyll ........ 12

4. Holiadur ........ 14

## Ynglŷn â

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a'r broses ymgynghori wedi'u tanategu gan yr Egwyddorion Ymgynghori[1], fel y'u cyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Os ydych chi'n ymateb fel cynrychiolydd grŵp, rhowch grynodeb o'r bobl a/neu'r sefydliadau rydych chi'n eu cynrychioli. Os yn bosib, rhowch grynodeb pellach o sut rydych wedi dod i'r casgliadau a nodwyd.

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r ceisiadau mynediad at wybodaeth, megis Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a deddfwriaeth diogelu data'r DU. Sylwer y gallai hyn gynnwys data personol, lle mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol.

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus, megis y Swyddfa Gartref, gydymffurfio ag ef, ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam rydych yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Swyddfa Gartref.

Bydd y Swyddfa Gartref yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partïon.

Mae eich barn yn werthfawr i ni, ac rydym yn diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen ac ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

[1] Microsoft Word - Consultation Principles (1).docx

## 1. Crynodeb Gweithredol

1.1. Mae troseddau cyllyll yn dinistrio teuluoedd a chymunedau ledled y wlad, a dyna pam mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i haneru troseddau cyllyll yn y degawd nesaf. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym yn gyrru rhaglen waith uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar atal a gorfodi, yn ogystal â chryfhau deddfwriaeth cyllyll. Mae hyn yn cynnwys gwahardd arfau nad oes lle iddynt ar ein strydoedd, targedu gwerthwyr anghyfrifol, rhoi mwy o bwerau i'r heddlu i ddelio â'r rhai sy'n cyflenwi ac yn berchen ar arfau at ddibenion treisgar, ymyrryd yn gynharach i atal pobl ifanc rhag cael eu denu i droseddu, a dod ag arbenigwyr ynghyd drwy'r Tasglu a'r Glymblaid Lladrad â Chyllyll.

1.2. Dangosodd data[2] ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 fod troseddau â chyllyll wedi gostwng 5%, i 51,527 o droseddau, o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024. Cofnododd yr heddlu 518 o droseddau llofruddiaeth yn y cyfnod hwn, gyda chyllyll neu offer miniog yn cael eu defnyddio mewn 38% o'r llofruddiaethau hyn. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos cynnydd, ond nid ydym yn hunanfodlon ac yn gwybod bod llawer mwy i'w wneud.

1.3. Er bod cyfyngiadau ar werthu cyllyll i unigolion o dan 18 oed, rydym yn pryderu am achosion lle mae pobl ifanc wedi dal i allu prynu cyllyll. Mae pobl o dan 18 oed wedi gallu defnyddio dogfennau adnabod oedolyn i brynu cyllyll ar-lein, yna mae'r cyllyll hyn wedi cael eu defnyddio ar gyfer troseddau, gan gynnwys llofruddiaeth.

1.4. Ym mis Hydref 2024, comisiynodd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd, y Comander Stephen Clayman, arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar droseddau cyllyll, i gynnal adolygiad o werthu a danfon cyllyll ar-lein. Cyhoeddwyd 'Adolygiad Annibynnol o'r Dechrau i'r Diwedd o Werthiannau Cyllyll Ar-lein'[3] y Comander Clayman ar 19 Chwefror 2025, a gwnaethnifer o argymhellion. Derbyniodd y Llywodraeth yr argymhellion ar unwaith ar wiriadau oedran cryfach ar gyfer gwerthiannau a danfoniadau cyllyll ar-lein a manwerthwyr yn adrodd am brynwyr swmp, a chyflwynodd ddeddfwriaeth yn y Bil Troseddu a Phlismona, sy'n mynd trwy'r Senedd ar hyn o bryd.

1.5. Roedd un o argymhellion eraill yr adolygiad yn ymwneud â chyflwyno cynllun cofrestru ar gyfer gwerthwyr cyllyll. Mae'r argymhelliad yn awgrymu amodau ar gyfer cofrestru, gan gynnwys manylion y prynwr i gael eu cofnodi, eu cadw a'u gwneud ar gael i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar gais. Yn ogystal, argymhellodd yr adolygiad gyflwyno trwyddedu mewnforio i reoli mewnforio cyllyll o dramor.

---

[2] Troseddu yng Nghymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Gwladol

[3] Adolygiad annibynnol o'r dechrau i'r diwedd o werthiannau cyllyll ar-lein - GOV.UK - https://www.gov.uk/government/publications/independent-end-to-end-review-of-online-knife-sales

1.6. Rydym yn glir bod angen newid mewn perthynas ag atal gwerthiannau dan oed, gwerthiannau anghyfreithlon arfau ymosodol gwaharddedig a gwerthiannau i'r rhai sy'n bwriadu defnyddio'r eitemau hyn ar gyfer trais. Mae'r ymgynghoriad hwn, felly, yn archwilio cyflwyno system drwyddedu i'r rhai sydd am werthu cyllyll ac eitemau llafnog eraill, a fydd yn cwmpasu mewnforwyr, busnesau a gwerthwyr preifat.

## 2. Cefndir

2.1. **Bu rheolaethau deddfwriaethol gyda chyfyngiadau oedran ar werthiant cyllyll ers 1996**, pan ddaeth yn drosedd gwerthu cyllyll i unigolion o dan 16 oed. Diwygiwyd hyn yn 2006 pan newidiwyd y gyfraith yng Nghymru a Lloegr i'w gwneud yn drosedd gwerthu cyllell i berson dan 18 oed. Mae'r gyfraith yn berthnasol i werthiannau cyllyll mewn siopau ac ar-lein, ac mae'n cael ei gorfodi gan yr heddlu a swyddogion safonau masnach. Cryfhawyd mesurau ynghylch gwirio oedran a danfon eitemau llafnog i eiddo domestig yn Neddf Arfau Ymosodol 2019.

2.2. **Mae cynllun trwyddedu eisoes ar waith yn yr Alban, cynllun Trwyddedu Delwyr Cyllyll yr Alban**[4], sy'n berthnasol i fusnesau ac yn rheoleiddio gwerthiannau cyllyll annomestig. Mewn mannau eraill yn y DU, fodd bynnag, gall unrhyw un werthu neu fewnforio cyllell, boed yn fusnes neu'n werthwr preifat. Mae hyn yn golygu nad yw Safonau Masnach na'r heddlu yn gwybod yn union pwy sy'n gwerthu neu'n mewnforio cyllyll yn eu hardal leol. Mae'n golygu bod rhaid i orfodi'r gyfraith ddibynnu ar chwiliadau neu wybodaeth ragweithiol i adnabod gwerthwyr ac o ble mae cyllyll wedi dod mewn ymchwiliadau.

2.3. **Amlinellodd yr Adolygiad Annibynnol o'r Dechrau i'r Diwedd o Werthiannau Cyllyll Ar-lein bryderon ynghylch y system ar-lein ar gyfer gwerthu cyllyll, yn enwedig gyda gwirio oedran adeg gwerthu a danfon.** Gall hyn hwyluso gwerthiannau twyllodrus drwy lwyfannau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol gan unigolion sydd wedyn yn gwerthu i eraill, yn aml heb wirio oedran, ac mewn rhai achosion at ddibenion treisgar.

2.4. **Nodwyd dau gategori o werthwyr ar-lein yn yr Adolygiad Annibynnol: manwerthwyr a gwerthwyr cyfoed i gyfoed.** Fel arfer, mae manwerthwyr yn cynnal siopau ar-lein[5] gyda'r gallu i brynu cyllyll drwy eu llwyfan eu hunain, gan gynnig y cyfle i weld a phrynu cyllyll gan ddefnyddio eu systemau a'u prosesau eu hunain. Mae cyfoed i gyfoed yn cynnwys yr hyn a ddisgrifir yn yr adroddiad fel gwerthwyr 'marchnad lwyd', y gall eu gweithgarwch fod yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, ond yn aml mae'n cynnwys ailwerthu cyllyll drwy gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau gwerthu. Mae hyn yn arwain at y cyfle i blant gael cyllyll heb unrhyw fath o wirio oedran na sgrinio o gwbl.

2.5. **Canfu'r Adolygiad Annibynnol y gellid olrhain cyllyll a ddefnyddir mewn troseddau treisgar yn ôl i fanwerthwyr a gwerthwyr cyfoed i gyfoed**, ond yn aml mae'r 'farchnad lwyd' yn methu â chynnig yr atebolrwydd sy'n ofynnol gan fanwerthwyr sy'n gweithredu fel busnesau cofrestredig. Mae'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan werthwyr 'marchnad lwyd' hefyd yn darparu lefel o anhysbysrwydd a'r posibilrwydd o hysbysebu anfwriadol i blant.

2.6. **Argymhellodd yr adolygiad mai'r amodau a gymhwysir drwy gofrestru neu drwyddedu ddylai fod:**

i) Adrodd gorfodol am bryniannau amheus neu swmp.
ii) Manylion y prynwr i gael eu cofnodi, eu cadw a'u gwneud ar gael i asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU ar gais.
iii) Pob deunydd marchnata i ddangos gwiriad oedran clir.

---

[4] [Knife dealers licence (Scotland) - GOV.UK - https://www.gov.uk/find-licences/knife-dealers-licence-scotland](https://www.gov.uk/find-licences/knife-dealers-licence-scotland)
[5] Gallai rhai fod â phresenoldeb ar-lein a blaen siop

iv) Bydd y rhai sy'n cofrestru yn cytuno i arolygiad a phrynu prawf gan yr Heddlu a Safonau Masnach.
v) Troseddau troseddol newydd, sef gwerthu, cynnig gwerthu a marchnata cyllyll heb gofrestru (y gellir eu rhoi ar brawf am y naill neu'r llall).
vi) Mae gwerthu cyllyll heb gofrestru yn cael ei drin yn fwy difrifol na throseddau meddiant.
vii) Bydd manwerthwyr yn cael eu gwahardd rhag gwerthu 'blychau dirgel', 'cyllyll dirgel' ac 'ychwanegion pris gostyngedig'.
viii) Ni ddylai manwerthwr cofrestredig fod yn berson gwaharddedig (i'w ddiffinio).
ix) Bydd pobl a safleoedd yn destun gwiriadau i sicrhau eu bod yn briodol i storio a gwerthu cyllyll.
x) Yn ymestyn i unrhyw fusnes sy'n gwerthu eitemau llafnog perthnasol

2.7. Argymhellodd yr adolygiad hefyd gyflwyno 'cynllun trwyddedu mewnforio i wahardd mewnforio cyllyll ac arfau gwaharddedig heb drwydded', oherwydd gallai unrhyw reoliad cryfach ar farchnad y DU yn unig wthio gwerthwyr dramor, ac felly efallai y bydd angen mynd i'r afael â rheoliadau mewnforio ar gyfer cyllyll ar yr un pryd.

## 3. Cynigion

3.1. Yn dilyn yr argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Annibynnol o Werthiannau Cyllyll Ar-lein, rydym yn cynnig cyflwyno cofrestru drwy gynllun trwyddedu ar gyfer gwerthu cyllyll ac eitemau llafnog. Rydym yn cynnig y byddai hyn yn berthnasol i werthwyr busnes a phreifat sy'n gwerthu cyllyll ac eitemau llafnog. Rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylai busnesau sy'n gwerthu cyllyll ac eitemau llafnog orfod dal trwydded, ac a ddylai hyn, fel yr ydym yn ei gynnig, fod yn berthnasol i fusnesau a gwerthwyr preifat.

3.2. Ochr yn ochr â thrwyddedu gwerthwyr, rydym hefyd yn cynnig cyflwyno trwyddedau ar gyfer mewnforio cyllyll ac eitemau llafnog. Fel yr amlinellwyd yn adolygiad y Comander Clayman, gallai unrhyw reoleiddio ar farchnad y DU annog pobl i edrych i brynu gan werthwyr sydd wedi'u lleoli dramor, ac felly byddai trwyddedu mewnforio yn bwysig wrth atal osgoi trwyddedu gwerthwyr.

3.3. Byddai'r cynigion hyn yn cyflwyno rheolaethau ar bwy all a phwy na all werthu a mewnforio cyllyll, ac ar ben hynny byddent yn ei gwneud hi'n haws i'r heddlu a Safonau Masnach adnabod o ble mae cyllyll wedi dod a gwirio cydymffurfiaeth gwerthwyr â deddfwriaeth cyllyll.

3.4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn gan fanwerthwyr, mewnforwyr a'r cyhoedd ar sut i gyflawni hyn. Rydym yn awyddus i glywed cynifer o safbwyntiau â phosib, o ystyried y baich ychwanegol y gallai hyn ei roi ar y cyhoedd, busnesau a mewnforwyr, ac rydym yn awyddus i weithio gyda phartïon â diddordeb i wneud hyn yn iawn a lleihau'r tarfu a'r gost.

### Trwyddedu ar gyfer Gwerthwyr Cyllyll

3.5. Credwn mai trwyddedu busnesau a gwerthwyr preifat fyddai'n cael yr effaith fwyaf. Byddai rheoleiddio gwerthiannau preifat cyllyll yn cynnwys gwerthiannau a wneir drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol dienw sydd o bryder arbennig i'r heddlu ac a amlygwyd yn yr adolygiad, a hefyd gwerthwyr ail-law.

3.6. Rydym yn pryderu os na fyddwn yn rheoleiddio gwerthiannau ail-law y gallai hyn ddarparu bwlch yn y gyfraith i unigolion diegwyddor brynu cyllyll mewn swmp, ac yna eu gwerthu i unigolion dan 18 oed neu at ddibenion troseddol.

#### *Gweinyddu a ffioedd*

3.7. Rydym yn cynnig mai'r corff gorau i weinyddu'r system drwyddedu ar gyfer gwerthwyr cyllyll ac eitemau llafn yw'r heddlu. Mae gan yr heddlu'r profiad perthnasol o redeg y cynllun trwyddedu arfau tân ar gyfer Delwyr Arfau Tanio Cofrestredig, a gallant gynnal y gwiriadau addasrwydd perthnasol.

3.8. Byddai'r heddlu'n adolygu'r cais ac yn cynnal gwiriadau addasrwydd ar yr unigolyn cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi'r drwydded.

3.9. Lle mae'r gwerthwr yn fusnes mwy, neu nid gwerthwr unigol yn unig, rydym yn cynnig y byddai angen i'r busnes gael deiliad trwydded dynodedig, yn debyg i oruchwyliwr dynodedig mangre[6] (DPS) ar gyfer alcohol. Byddai'r deiliad trwydded dynodedig yn gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer yr heddlu, a byddai'n gyfrifol am gael a chynnal trwydded.

3.10. Bydd angen i'r ymgeisydd dalu ffi am drwydded, ac rydym yn cynnig bod y system drwyddedu ar gyfer cyllyll ac eitemau llafnog yn hunangyllidol ac ar sail adfer cost lawn, yn cael ei hariannu drwy'r ffioedd sy'n daladwy gan ddeiliaid trwyddedau. Bydd angen adnewyddu'r drwydded yn rheolaidd, a fydd yn arwain at ffi adnewyddu.

3.11. Byddai'r drwydded yn destun amodau, a lle na chyflawnir yr amodau hyn, gellir dirymu trwydded unigolyn.

## *Gwiriadau addasrwydd*

3.12. Argymhellodd adolygiad y Comander Clayman, 'bydd pobl a safleoedd yn destun gwiriadau i sicrhau eu bod yn briodol i storio a gwerthu cyllyll', ac mae'n cyfeirio at wiriadau ar ddelwyr arfau tanio. Felly, rydym yn cynnig y dylai'r heddlu gynnal gwiriadau addasrwydd ar yr ymgeisydd er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi trwydded.

3.13. Byddai gwiriadau addasrwydd yn cynnwys yr heddlu yn cynnal gwiriadau cefndir ar yr unigolyn, megis a oes ganddynt gofnod troseddol, ac a oes ganddynt unrhyw wybodaeth arall am yr unigolyn sy'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o anonestrwydd.

3.14. Wrth wneud eu penderfyniad mewn blynyddoedd i ddod, efallai y bydd yr heddlu hefyd eisiau ystyried a yw'r ymgeisydd wedi dal trwydded gwerthwr cyllyll o'r blaen a'i thorri, a'r rhesymau dros hyn.

3.15. Ar gyfer yr holl wiriadau hyn, dylid ystyried difrifoldeb y drosedd/digwyddiad, a yw'n ddigwyddiad ynysig, a hyd yr amser ers i'r digwyddiad ddigwydd. Ni fyddai digwyddiad sengl o reidrwydd yn golygu gwrthod trwydded yn awtomatig, oherwydd byddai'n dibynnu ar ystod o ffactorau a'r difrifoldeb.

3.16. O ran y busnesau mwy yr awgrymwn y byddai angen iddynt gael deiliad trwydded dynodedig, gellir addasu'r gwiriadau addasrwydd hyn i sicrhau eu bod yn briodol. Fel arfer, mae gan y busnesau mwy hyn bolisïau ar waith yn y parth cyhoeddus i sicrhau bod gwerthiannau'n cael eu gwneud o fewn y gyfraith.

## *Hyd ac adnewyddiadau*

3.17. Rydym yn cynnig bod trwyddedau ar gyfer gwerthwyr cyllyll ac eitemau llafn yn adlewyrchu hyd y cyfnod cofrestru ar gyfer gwerthwyr arfau tanio, ac yn ddilys am dair blynedd.

---

[6] Trwyddedu alcohol - GOV.UK - https://www.gov.uk/guidance/alcohol-licensing#designated-premises-supervisors

Fodd bynnag, rydym yn ceisio barn ynghylch a allai hyd y drwydded fod yn hirach – gweler cwestiwn 7.

3.18. Byddai angen i ddeiliad y drwydded adnewyddu'r drwydded bob tair blynedd, felly, drwy wneud cais i'r heddlu eto a thalu ffi adnewyddu. Rydym yn ceisio barn ynghylch pa mor hir y dylai trwydded gwerthwr fod yn ddilys cyn bod angen ei hadnewyddu.

## *Gorfodi a dirymu*

3.19. Rydym yn archwilio pwy fyddai yn y sefyllfa orau i orfodi cynllun trwyddedu, ond mae'n debyg mai'r heddlu fydd hyn, gyda chefnogaeth gan Safonau Masnach, a fydd yn parhau i orfodi deddfwriaeth gwerthu cyllyll bresennol ac sy'n debygol o fod â gwell gwybodaeth am werthwyr cyllyll lleol.

3.20. Byddai'n drosedd gwerthu cyllell neu eitem lafnog heb y drwydded berthnasol i wneud hynny. Lle canfyddir bod gwerthwr yn gwerthu heb drwydded, gallant fod yn destun camau gorfodi.

3.21. Gellir cymryd camau gorfodi hefyd lle canfyddir bod gwerthwr trwyddedig yn torri amodau eu trwydded.

3.22. Rydym yn cynnig y dylai fod rhai amgylchiadau lle gall yr heddlu ddirymu trwydded. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys os yw gwerthwr wedi:

(i) torri'r gyfraith droseddol sy'n ymwneud ag eitemau llafnog neu arfau troseddol;
(ii) cyflawni unrhyw drosedd arall; neu
(iii) methu â bodloni unrhyw un o amodau'r drwydded.

3.23. Ni fyddai dirymiad yn awtomatig, a byddai'n dibynnu ar ddifrifoldeb y toriad neu'r drosedd a gyflawnwyd a ffactorau eraill megis a oedd yn doriad cyntaf y drwydded.

## *Gwerthwyr Cyllyll Wyneb yn Wyneb*

3.24. Mae gwerthwyr wyneb yn wyneb yn cynnwys siopau ffisegol a'r rhai nad oes ganddynt leoliad sefydlog, gan gynnwys marchnadoedd neu werthwyr cist car.

3.25. Ar gyfer busnesau mwy sydd â nifer o siopau, rydym yn dadlau dros fodel lle byddai gofyniad i bob siop unigol yn y gadwyn fanwerthu ddal trwydded. Mae hyn yn debyg i drwyddedu alcohol ac yn caniatáu dirymu trwydded ar gyfer siop unigol y canfyddir ei bod yn torri amodau'r drwydded, yn hytrach na dirymu trwydded ar gyfer busnes cyfan. Credwn y byddai trwyddedu pob siop yn fesur mwy effeithiol i annog cydymffurfiaeth leol.

### *Amodau*

3.26. Ar gyfer gwerthwyr wyneb yn wyneb, efallai y bydd amodau ychwanegol fel rhan o'u trwydded.

3.27. Rydym yn cynnig y dylai fod yn amod ar y drwydded y bydd angen i fanwerthwyr sy'n cynnal gwerthiannau wyneb yn wyneb gymhwyso polisïau ar gyfer gwerthiannau â chyfyngiad oedran, megis 'Her 25', i sicrhau bod gwiriadau dilysu oedran yn digwydd, fel mai dim ond lle mae'r manwerthwr yn fodlon bod y cwsmer yn 18 oed neu'n hŷn y bydd cyllyll yn cael eu gwerthu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwiriadau prawf oedran ar gyfer gwerthiannau yn y siop, wrth gasglu, neu adeg dosbarthu.

3.28. Gallai'r amodau ei gwneud yn ofynnol i werthwyr sicrhau bod cyllyll yn cael eu harddangos a'u pecynnu'n ddiogel i leihau'r risg. Byddai hyn yn cynnwys manwerthwyr ffisegol yn cymryd camau ymarferol a chymesur i gyfyngu ar hygyrchedd ac osgoi defnydd ar unwaith, i leihau'r posibilrwydd o anaf, ac i atal lladrad. Gallai hyn gynnwys defnyddio dulliau sy'n gofyn am ymyrraeth gan aelod o staff i ryddhau'r gyllell o arddangosfa ddiogel, neu osod arddangosfeydd mewn lleoliadau diogel o fewn y siop.

3.29. Gallai'r amodau hefyd ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff sy'n gwerthu, neu sy'n goruchwylio neu'n cymeradwyo gwerthu cyllyll, gael hyfforddiant gan eu cyflogwr, gyda'r hyfforddiant hwnnw'n cael ei adnewyddu'n rheolaidd.

## Trwyddedu ar gyfer Mewnforwyr Cyllyll

3.30. Mae llawer o gyllyll ac eitemau llafnog eraill yn cael eu mewnforio o dramor, naill ai ar sail cyfanwerthu i fanwerthwyr yn y DU neu fel gwerthiannau uniongyrchol i aelodau'r cyhoedd. Mae hefyd yn bosib y gallai unrhyw reoleiddio gwerthiannau cyllyll ar farchnad y DU annog gwerthwyr i symud dramor. Rydym yn ymgynghori ar reoleiddio'r llwybr hwn fel mai dim ond cynhyrchion cyfreithlon sy'n cael eu mewnforio, a'u bod ond yn cael eu mewnforio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth cyllyll ac arfau ymosodol. Rydym yn ystyried pedwar opsiwn gwahanol, ac rydym yn ceisio barn arnynt.

### *Opsiwn 1 – Cynllun Mewnforwyr Awdurdodedig*

3.31. Un dull fyddai deddfu fel ei bod yn ofynnol i'r holl fewnforio cynhyrchion llafnog gael ei wneud drwy fewnforiwr awdurdodedig yn y DU. Byddai unrhyw un sydd eisiau mewnforio eitem lafnog, boed hynny'n werthwr neu'n unigolyn sy'n mewnforio at ddefnydd personol, yn gallu mewnforio eitem lafnog drwy fewnforiwr awdurdodedig.

3.32. Byddai hyn yn fantais o gael nifer gymharol fach o fewnforwyr awdurdodedig, a fyddai'n gwneud monitro a gorfodi'n haws i'r heddlu a'r Llu Ffiniau.

### *Opsiwn 2 – Trwyddedu Mewnforio ar gyfer Manwerthwyr yn Unig, ond Nid Unigolion Preifat*

3.33. Opsiwn arall fyddai caniatáu i unrhyw fanwerthwr wneud cais am drwydded fewnforio. Byddai hyn yn eithrio gwerthwyr preifat na fyddent o dan y cynnig hwn yn gallu mewnforio cyllyll nac eitemau llafnog.

3.34. Byddai'r cynllun hwn yn caniatáu i werthwyr tramor wneud cais am drwydded fewnforio, yn ogystal â gwerthwyr yn y DU.

*Opsiwn 3 – Trwyddedu ar gyfer pob Mewnforiwr - Manwerthwyr ac Unigolion Preifat*

3.35. Rydym wedi ystyried a ddylai unrhyw werthwr, gan gynnwys gwerthwyr preifat, allu gwneud cais am drwydded, ac felly parhau i allu mewnforio eitemau'n uniongyrchol o dramor.

*Opsiwn 4 - Trwydded gyfun mewnforio / gwerthwyr*

3.36. Rydym yn cynnig, ar gyfer busnesau sy'n mewnforio'n uniongyrchol ac yn gwerthu i'r cyhoedd, y dylai fod trwydded gyfun mewnforio a gwerthwr.

3.37. Byddai trwydded gyfun yn lleihau'r baich ariannol a gweinyddol ar werthwyr oherwydd dim ond un drwydded y byddai'n ofynnol iddynt wneud cais amdani.

*Amodau*

3.38. Byddai cael a chadw trwydded mewnforwyr yn amodol ar yr unigolyn yn cydymffurfio ag amodau tebyg i'r rhai a nodir ar gyfer trwyddedau gwerthwyr.

*Gorfodi*

3.39. Byddai'n drosedd mewnforio unrhyw gyllell neu eitem lafnog heb drwydded fewnforio. Lle canfyddir bod mewnforion wedi'u gwneud heb drwydded, gall yr unigolyn neu'r busnes sy'n mewnforio'r gyllell neu'r eitem lafnog fod yn destun camau gorfodi.

3.40. Byddai gorfodi trwyddedau mewnforio yn cael ei gefnogi gan Lu'r Ffiniau, sy'n cynnal archwiliadau rheolaidd o bost a pharseli a fewnforir i'r DU.

## 4. Holiadur

### Maint a chwmpas y farchnad

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth eisiau datblygu amcangyfrif o faint a chwmpas y farchnad.

| |
|---|
| **1. Ydych chi'n gwerthu cyllyll neu eitemau llafnog eraill?**<br><br>YDW/NAC YDW (dileer fel y bo'n briodol) |
| **2. Os ateboch YDW uchod, ydych chi'n ystyried eich hun yn (ticiwch bob un sy'n berthnasol):**<br><br>Gwerthwr ar-lein<br>Gwerthwr wyneb yn wyneb<br>Gwerthwr preifat/ail-law<br>Mewnforiwr<br>Arall (manylwch) |
| **3. Os ydych chi'n gwerthu cyllyll neu eitemau llafnog, pa mor fawr yw eich busnes?**<br><br>Bach (1-10 o weithwyr)<br>Canolig (11-50 o weithwyr)<br>Mawr (dros 51 o weithwyr) |

### Trwyddedu ar gyfer Gwerthwyr Cyllyll

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig y dylai pob gwerthwr, gan gynnwys manwerthwyr a gwerthwyr preifat, ddal trwydded.

| |
|---|
| **4. A ddylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n gwerthu cyllyll ac eitemau llafnog ddal trwydded?**<br><br>DYLAI/NA (dileer fel y bo'n briodol) |
| **5. A ddylai fod yn ofynnol i werthwyr preifat sy'n gwerthu cyllyll ac eitemau llafnog ddal trwydded?**<br><br>DYLAI/NA (dileer fel y bo'n briodol) |

## Hyd y Drwydded

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig y dylai trwydded fod yn ddilys am 3 blynedd cyn bod angen ei hadnewyddu.

**6. Am ba hyd ydych chi'n meddwl y dylai trwydded gwerthwr neu fewnforiwr fod yn ddilys cyn bod angen ei hadnewyddu?**

3 blynedd
5 mlynedd
10 mlynedd
Arall

## Trwyddedu ar gyfer Mewnforwyr Cyllyll

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig pedwar opsiwn ar gyfer pwy ddylai allu cael trwydded, ac felly mewnforio cyllyll ac eitemau llafnog.

**7. Pwy ddylai gorfod dal trwydded i fewnforio cyllyll ac eitemau llafnog?**

Mewnforiwr awdurdodedig yn y DU
Manwerthwyr, heb gynnwys unigolion preifat
Unrhyw un – gan gynnwys gwerthwyr preifat ac unigolion sy'n mewnforio eitemau at ddefnydd personol
Arall

## Effeithiau

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth eisiau datblygu dealltwriaeth o effaith ddisgwyliedig y ddeddfwriaeth hon ar werthwyr a mewnforwyr.

**8. Ydych chi'n rhagweld y bydd y mesur hwn yn effeithio ar eich busnes/gweithrediadau busnes?**

YDW/NAC YDW (dileer fel y bo'n briodol)

**Rhowch resymau (uchafswm o 250 gair)**

## Cyffredinol

Os oes gennych unrhyw syniadau eraill ar y cynigion, defnyddiwch y blwch ateb hwn.

| |
|---|
| **9. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?**<br><br>OES/NAC OES (dileer fel y bo'n briodol)<br><br>**Rhowch resymau (uchafswm o 250 gair)** |

## Amdanoch chi: Gwybodaeth am yr Ymatebydd

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun. Mae darparu'r wybodaeth hon yn wirfoddol. Gallwn eich sicrhau y bydd ymatebion yn cael eu trin fel data personol gan y Swyddfa Gartref yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar ddal gwybodaeth bersonol.

1. **Enw llawn**
2. **Enw'r cwmni/sefydliad, os yw'n berthnasol**
3. **Teitl swydd neu rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (er enghraifft, aelod o'r cyhoedd neu gadeirydd corff cynrychioliadol), os yw'n berthnasol**
4. **Manylion Cyswllt:**
    - **Cyfeiriad e-bost neu;**
    - **Prif gyfeiriad, gan gynnwys cod post**

*Diolch am eich ymateb.*